**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 16-00(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 8 Tachwedd 2000 |
| **Amser:** | 9.00am hyd 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Jocelyn Davies yn dirprwyo dros Janet Ryder | Dwyrain De Cymru |
| Huw Lewis yn dirprwyo dros Karen Sinclair | Merthyr Tudful a Rhymni |
| *Yn bresennol* | |
| Brian Willott | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Sian Lloyd Jones | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Ann Watkin | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Alasdair Denton | Cyllid Cymru |
| John Clarke | Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru |
| David Howarth | Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru |
| Yr Athro Terry Marsden | Ymgynghorydd Arbenigol |
| Fred Cunningham | Grp Strategaeth Datblygu Ffermydd |
| Christine Lewis | Partneriaeth Amaeth-Bwyd |
| Wynfford James | Partneriaeth Amaeth-Bwyd |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie (eitemau 2, 4 a 5) | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth |
| Mike Dunn (eitem 4) | Pennaeth, Adain Datblygu Bwyd a Ffermio |

| | |
|---|---|
| Chris Lea (eitem 5) | Adain Datblygu Bwyd a Ffermio |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a chyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Jocelyn Davies a Huw Lewis, a oedd yn dirprwyo dros Janet Ryder a Karen Sinclair. Gofynnodd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fudd a oedd yn berthnasol i'r cyfarfod. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr, a Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog -** ARD 16-00(p1)

2.1 Dywedodd y Gweinidog nad oedd ganddo unrhyw beth i'w ychwanegu at ei adroddiad a gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau. Codwyd y pwyntiau isod:

- yr oedd sefydlu'r Grp Strategaeth Addasu Genetig yn gam a oedd yn cael ei groesawu ond gofynnwyd i'r Gweinidog egluro'i farn yngln â phrofion addasu genetig a oedd yn cael eu gwneud mewn labordai. Dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai cyfarfod cyntaf y Grp Strategaeth yn cael ei gynnal yn ystod y pythefnos neu'r tair wythnos nesaf. Yr oedd y gwaith ar addasu genetig mewn labordai yn fater i'r Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch. Y prif beth yr oedd y Gweinidog yn awyddus i'w wneud oedd sicrhau nad oedd deunydd ymchwil addasu genetig yn cael ei ryddhau i'r amgylchedd;
- gofynnwyd i'r Gweinidog gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yngln â'r cnwd arbrofol a addaswyd yn enetig yn Sir y Fflint. Cytunodd i anfon copi o'r llythyr y gofynnwyd amdano gan Janet Ryder yn y cyfarfod ar 25 Hydref i holl Aelodau'r Pwyllgor;
- holwyd y Gweinidog yngln â rôl y Pwyllgor yn yr adolygiad o Safonau Organig. Cytunodd y dylid cyflwyno papur am yr adolygiad i'r Pwyllgor;
- croesawyd y cynnydd a oedd wedi ei wneud er mwyn ceisio cyflawni'r ymrwymiad i ddarparu llaeth ysgol am ddim i ddisgyblion cyfnod allweddol 1. Nodwyd hefyd na ddylid gorfodi plant i yfed llaeth ysgol a bod cyflwyniad deniadol yn hanfodol er mwyn annog plant i yfed llaeth;
- croesawyd yr iawndal amaeth-ariannol dan y cynllun cymorth arwynebedd âr a gofynnwyd i'r Gweinidog barhau i geisio sicrhau unrhyw iawndal a oedd yn ddyledus i ffermwyr Cymru;
- holwyd y Gweinidog yngln ag iawndal i ffermwyr a oedd wedi dioddef o ganlyniad i'r llifogydd diweddar. Dywedodd fod y cyhoeddiad i fod i gael ei wneud yr wythnos ddilynol gan y Gweinidog Cyllid ac y byddai'n codi'r mater gyda Nick Brown yn y cyfarfod misol nesaf;
- yr oedd yr adroddiad ar y trefniadau cig defaid wedi ei gyhoeddi, a chan ei fod mor bwysig i Gymru, gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn teimlo y byddai'n briodol iddo arwain y DG mewn trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Dywedodd y Gweinidog y byddai gweinidogion y DG yn trafod tactegau yn fuan. Byddai'n mynd i Frwsel ymhen pythefnos pan oedd y Cyngor i fod i drafod y cynllun Premiwm Blynyddol Defaid;

- gofynnwyd i'r Gweinidog am yr wybodaeth ddiweddaraf yngln â BSE yn Ffrainc, pa drafodaethau a oedd yn cael eu cynnal gyda'r Undeb Ewropeaidd a pha wybodaeth oedd ganddo i ddefnyddwyr yngln â'r peryglon posibl. Dywedodd y byddai'r mater yn cael ei godi yng nghyfarfod misol y gweinidogion tiriogaethol. Yr oedd pryder yn cael ei fynegi yn Ffrainc yngln â BSE a byddai angen rhoi sylw i'r sefyllfa drwy gyfrwng rheoliadau pendant;
- gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd y contract gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymwneud â darparu cig oen ffres ynteu gig oen wedi ei rewi. Cadarnhaodd fod y contract yn ymwneud â chyflenwi cig oen ffres. Yr oedd wedi ysgrifennu at y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gofyn am gyfarfod y gallai'r undebau amaethyddol hefyd ei fynychu ac yr oedd yn gobeithio cael ymateb cadarnhaol;
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a allai Cwmni Cig Cymru gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu contract y Weinyddiaeth Amddiffyn. Dywedodd y Gweinidog mai mater i'r Cwmni oedd hwn. Nododd y Pwyllgor fod grantiau prosesu a marchnata ar gael er mwyn sefydlu canolfannau rhewi yng Nghymru, ond mai ychydig iawn o gwmnïau oedd wedi dangos diddordeb hyd yn hyn;
- mynegwyd pryder bod y rheolau sy'n ymwneud â chymorthdaliadau Ewropeaidd ar gyfer tyfu llin a chywarch wedi eu newid fel mai dim ond tir sydd wedi ei gofrestru ar gyfer cymorth arwynebedd âr a fyddai'n gymwys. Yr oedd hyn mewn gwirionedd yn golygu nad oedd llawer o gynhyrchwyr Cymru'n gymwys. Dylid gofyn i'r Undeb Ewropeaidd gytuno i ailgofrestru tir ar gyfer cymorth arwynebedd âr. Dywedodd y Gweinidog y gellid darparu rhywfaint o gymorth i'r sector drwy Amcan 1. Nododd y Pwyllgor fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cytuno y gellid talu cymhorthdal ar sail drosiannol ar dir heb gymorth arwynebedd âr yr oedd llin a chywarch wedi eu tyfu arno yn flaenorol.

*Pwyntiau gweithredu*
*2.*2 Copi o'r llythyr y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod ar 25 Hydref yngln â'r cnwd arbrofol a addaswyd yn enetig yn Sir y Fflint i'w anfon at holl Aelodau'r Pwyllgor (Ceir copi o'r llythyr a ddarparwyd yn atodiad 4)- **Gweinidog**

**Eitem 3: Adolygiad Arallgyfeirio -** ARD 16-00(p4); ARD 16-00(p5)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr o Awdurdod Datblygu Cymru, Cyllid Cymru a Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru i'r cyfarfod. Rhoddwyd anerchiadau byr gan Brian Willott a John Clarke a thynasant sylw at y prif bwyntiau a oedd yn eu papurau.

3.2 Rhoddodd Alasdair Denton gyflwyniad byr i Gyllid Cymru. Dywedodd fod mentrau bach a chanolig eu maint yn hanfodol i'r economi wledig, ac arnynt hwy, ynghyd â busnesau cymunedol, yr oedd gwaith Cyllid Cymru'n seiliedig. Byddai Cyllid Cymru'n darparu cyllid a chyngor mewn partneriaeth ag amrediad eang o gyrff o'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

3.3 Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn.

3.4 Yr oedd yr Awdurdod Datblygu'n gyfrifol am ddatblygu economaidd ond sut oedd ei

weithgareddau'n cael eu targedu a'u harolygu yng Nghymru wledig?

- Dywedodd Brian Willot nad oedd gan yr Awdurdod Datblygu gyllidebau penodol ar gyfer Cymru wledig. Yr oedd anghenion ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol yn wahanol ac yr oedd pob rhaglen yn cael ei theilwrio ar gyfer yr ardal y byddai'n cael ei gweithredu ynddi. Yr un oedd y gofynion craidd pa un a oedd busnes wedi ei leoli mewn ardal wledig ynteu ardal drefol. O ganlyniad nid oedd angen polisi na chyllideb ar wahân ar gyfer ardaloedd gwledig, ond yr oedd Uned Wledig yr Awdurdod Datblygu'n sicrhau bod gan holl bolisïau'r Awdurdod ddimensiwn gwledig. Yn ychwanegol at y gweithgareddau craidd hyn yr oedd rhai rhaglenni'n canolbwyntio'n llwyr ar ardaloedd gwledig e.e. y rhaglen amaeth-bwyd a'r rhaglen goed a'r Cynllun Trefi Marchnad. Gellid nodi gwariant cyfalaf mewn ardaloedd gwledig ar wahân ond yr oedd gwariant cyfredol mewn meysydd megis cefnogi busnesau yn cael ei arwain gan y galw ac ni ellid ei wahanu. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cael ateb tebyg gan yr Awdurdod Datblygu y llynedd ac nad oedd yn teimlo fod yr ymateb yn un digonol.

3.5 Croesewid y gefnogaeth i Ganolfan Gydweithredol Cymru ond pa effaith fyddai ei gwaith yn ei gael ar Gymru wledig?

- Dywedodd Sian Lloyd Jones y dylai gael effaith gadarnhaol, er enghraifft drwy sefydlu undebau credyd.

3.6 Beth oedd y prif broblemau a oedd yn wynebu busnesau a oedd yn ystyried sefydlu neu ddatblygu mewn ardaloedd gwledig, a sut y gellid gwella'r broses o nodi busnesau gwledig sydd â photensial ar gyfer twf sylweddol a rhoi cefnogaeth iddynt?

- Dywedodd Sian Lloyd Jones fod yr Awdurdod Datblygu'n un o brif gefnogwyr Cyswllt Busnes ond nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â sefydlu busnesau. Yr oedd yn darparu arian craidd i asiantaethau eraill ac yn recriwtio ymgynghorwyr hunangyflogedig a oedd yn cael eu secondio i Gyswllt Busnes. Yr oedd yr Awdurdod Datblygu hefyd yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddol i Gyswllt Busnes ar lefel Cymru gyfan. Ychwanegodd Brian Willott mai'r prif broblemau a oedd yn wynebu unrhyw fusnes newydd oedd datblygu sgiliau busnes sylfaenol a sicrhau cyllid. Mewn ardaloedd gwledig yr oedd pellter yn achosi problemau ychwanegol megis cysylltu â marchnadoedd, sicrhau hyfforddiant, nifer ac ansawdd y gwasanaethau proffesiynol, prinder cyfleoedd rhwydweithio a marchnad lafur gyfyngedig gan fod pobl ifanc yn gadael yr ardal. Darperid cefnogaeth i sefydlu busnes ar lefel leol drwy asiantaethau menter a Chyswllt Busnes. Rôl yr Awdurdod Datblygu oedd datblygu busnesau a oedd yn bodoli'n barod ac a oedd â'r potensial i ehangu;
- Dywedodd Alasdair Denton y byddai rhaglen ddatblygu Cyllid Cymru, a oedd yn manteisio ar arbenigedd ym Mhrifysgolion Bangor ac Aberystwyth a'r Rhaglen Aspire, yn cael eu hymestyn i ardaloedd gwledig. Cytunodd nad oedd y cyngor a oedd ar gael mewn ardaloedd gwledig gystal o ran ansawdd, ond y gellid gwella'r sefyllfa drwy well isadeiledd cyfathrebu. Nid oedd y rheolwr banc lleol mwyach yn cael ei ystyried fel ymgynghorydd busnes. Yr oedd Cyllid Cymru felly'n

sefydlu cronfa benthyciadau bychain.

3.7 Pa sectorau arbennig oedd yn cynnig potensial ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru wledig?

- Dywedodd Brian Willott mai ynni adnewyddadwy a nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol oedd yn cynnig y potensial mwyaf. Ychwanegodd Sian Lloyd Jones fod prosiectau peilot coedwigaeth a nwyddau amgylcheddol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru'n cael eu hymestyn drwy Gymru wledig.

3.8 O gofio pwysigrwydd busnesau micro i'r economi wledig a oedd gan Gyllid Cymru bolisïau penodol i'w cefnogi?

- Dywedodd Alasdair Denton fod strategaeth Cyllid Cymru'n cael ei datblygu ond y byddai prosiect a oedd yn cael ei ariannu gan Amcan 1 yn rhoi sylw i anghenion busnesau micro drwy gronfa sefydlu a benthyciadau bychain o £100 i £100,000.

3.9 Yr oedd papur yr Awdurdod Datblygu'n cyfeirio at adfywio cymunedau. Beth y gellid ei wneud er mwyn helpu cymunedau i gadw gwasanaethau hanfodol megis siopau pentref a swyddfeydd post? Sut y gellid annog busnesau i gyfuno a darparu gwasanaethau o un lleoliad?

- Teimlai Brian Willott fod nifer o broblemau a fyddai'n rhwystro'r dasg o ddod â swyddogaethau at ei gilydd dan un to gan gynnwys gwrthdaro rhwng gwahanol bobl a chystadleuaeth. Yr hyn yr oedd yr Awdurdod Datblygu'n ei wneud oedd cefnogi prosiectau yr oedd y gymuned ei hun yn credu y byddent o fudd. Yr oedd y cymorth a roddid yn cynnwys cefnogaeth refeniw i siopau, swyddfeydd post a neuaddau pentref, ac yn fwy diweddar, grantiau cyfalaf i ddarparu cyfleusterau megis gweithdai. Ychwanegodd Sian Lloyd Jones fod gwasanaeth ymgynghorol adwerthu yn cael ei ddarparu a bod cefnogaeth wedi ei darparu i siopau a swyddfeydd post lleol drwy'r Cynllun Trefi Marchnad.

3.10 Beth allai Cyllid Cymru ei wneud er mwyn annog pobl i ddechrau ffermio?

- Dywedodd Alasdair Denton nad oedd sicrwydd eto pa gymorth y gellid ei roi i bobl a oedd am ddechrau ffermio. Gellid cynnig cefnogaeth i brosiectau arallgyfeirio ond nid er mwyn ehangu cynhyrchiant. Yr oedd angen edrych ar y rheolau'n fanylach a meddwl mwy yngln â beth arall y gellid ei wneud. Byddai angen arian cyfatebol o ffynonellau eraill ar gyfer unrhyw arian gan Gyllid Cymru;
- Dywedodd John Clarke mai'r caffaeliad pwysicaf i unrhyw un a oedd am ddechrau ffermio oedd ymroddiad ac awydd i lwyddo. Byddai banciau'n darparu arian ond yr oedd yn bwysig peidio â benthyca gormod.

3.11 Dadleuid yn aml bod y trefniadau presennol ar gyfer cefnogi busnesau yn dameidiog ac yn ddi-drefn. Beth oedd yn cael ei wneud er mwyn gwella'r gwaith o gyd-drefnu? Sut oedd cronfeydd

strwythurol yn cael eu cyd-drefnu yn nwyrain Cymru a beth oedd yn cael ei wneud er mwyn rhoi sylw i'r diffyg grant Trydedd Reng yng Nghanolbarth Cymru?

- Dywedodd Brian Willott mai anghenion cwsmeriaid oedd y peth pwysicaf. Yr hyn yr oeddent am ei gael oedd symlrwydd ac nid oeddent yn poeni pwy oedd yn darparu'r gwasanaeth. Yr oedd cyd-drefnu yn fater y byddai Adolygiad Cefnogi Busnesau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn rhoi sylw iddo. Yr oedd yr Awdurdod Datblygu'n gweithio mewn cysylltiad agos â Chyswllt Busnes ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Cangen o'r Awdurdod Datblygu oedd Cyllid Cymru felly yr oedd cysylltiad agos rhyngddynt. Gallai'r Awdurdod Datblygu annog safonau ansawdd cyffredin drwy'r cyllid craidd yr oedd yn ei ddarparu i gyrff amrywiol. Ychwanegodd Sian Lloyd Jones fod proses gynllunio gorfforaethol yr Awdurdod Datblygu'n ei gwneud yn ofynnol iddo gyd-drefnu ei weithgareddau. Yng Nghanolbarth Cymru yr oedd yr Awdurdod yn gweithio mewn cysylltiad agos â Phartneriaeth Dwyrain Cymru ac yr oedd gwersi'n cael eu dysgu o'r profiad gydag Amcan 1;
- Dywedodd Alasdair Denton fod perthynas waith agos rhwng Cyllid Cymru a'r Awdurdod Datblygu, a hefyd â nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys y Cynulliad ac awdurdodau lleol. Yr oedd prosiectau fel Mentor Cymru'n dangos sut yr oedd gwasanaethau'n cael eu cyd-drefnu. Yr oedd cynllun Trydedd Reng newydd yn cael ei ddatblygu;
- Eglurodd John Clarke fod hawliau Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru wedi eu dirprwyo gan y Cynulliad. Yr oedd y gwaith o weithredu polisïau'n cael ei arwain gan y Cynulliad ac yr oedd y Swyddfa'n cydweithio'n agos â'r Awdurdod Datblygu a chyrff arweiniol eraill. Cynhelid cyfarfodydd cyson er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyd-drefnu. Cydnabu fod y ffurflenni cais ar gyfer cronfeydd strwythurol yn gymhleth ond bwriedid eu symleiddio. Cadarnhaodd David Howarth fod y Swyddfa'n cynnig cymorth i lenwi ffurflenni cais os oedd angen.

3.12 Gan fod cynifer o gyrff yn darparu cefnogaeth i fusnesau a oedd dyblygu gwasanaethau'n broblem ac a ddylid ystyried eu had-drefnu?

- Dywedodd Brian Willott mai hwn oedd y cwestiwn mawr. Yr oedd yr Awdurdod Datblygu'n darparu ei wasanaethau drwy reolwyr cysylltiadau a oedd yn gwneud bywyd yn haws i gwmnïau. Yr oedd Cyswllt Busnes yn darparu gwasanaeth mynediad cyntaf a dangos y ffordd. Fodd bynnag, yr oedd yr asiantaethau menter yn gwmnïau preifat ac, i ryw raddau, yn gystadleuaeth. Teimlai y gellid cyd-drefnu'r system yn well a sicrhau ansawdd cysonach.

3.13 Beth oedd y prif flaenoriaethau o safbwynt technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a datblygu busnesau gwledig? Yr oedd datblygu e-fusnes yn un o bum thema ar gyfer symbylu llwyddiant busnesau cynaliadwy ond a ddylai'r Awdurdod Datblygu fod yn fwy ymosodol a beth oedd ei gyfraniad? Pa welliannau mewn TGCh y gellid disgwyl i Amcan 1 eu darparu?

- Dywedodd Brian Willott fod yr Awdurdod Datblygu'n credu y byddai TGCh yn bwysig iawn ar gyfer y dyfodol. Yr oedd yn gweithio gyda BT ac eraill er mwyn sicrhau bod isadeiledd digonol wedi ei sefydlu. Yr oedd rhaglen wedi ei sefydlu hefyd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a

sgiliau mewn mentrau bach a chanolig eu maint;

- Dywedodd John Clarke fod rhai ceisiadau calonogol iawn wedi dod i law ar gyfer prosiectau TGCh. TGCh oedd prif nod Blaenoriaeth 2 dan Amcan 1 ac yr oedd £180m ar gael dros y chwe blynedd nesaf er mwyn datblygu isadeiledd a hyfforddiant TGCh. Yr oedd partneriaeth benodol yn cael ei sefydlu er mwyn hybu datblygiadau.

3.14 A oedd angen i'r colegau a'r prifysgolion wneud mwy drwy weithredu fel canolfannau arbenigedd er mwyn helpu busnesau gwledig neu ddatblygu a chynhyrchu syniadau â photensial ar gyfer busnes, ac os oedd, sut y gellid gwneud hyn?

- Dywedodd Brian Willott fod gan yr Awdurdod Datblygu gysylltiadau agos iawn â'r sector addysg bellach ac addysg uwch a bod nifer o brosiectau penodol wedi eu sefydlu. Yr oedd gweithdai cefnogi, a oedd yn gysylltiedig â cholegau, yn cael eu sefydlu yn awr. Yr oedd angen datblygu rôl y sector mewn perthynas â datblygu economaidd;
- Dywedodd John Clarke fod prosiect carlam Amcan 1 wedi ei gymeradwyo er mwyn lleoli graddedigion mewn busnesau bach. Yr oedd angen strategaeth drosfwaol a byddai gan y Cyngor Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a fyddai'n cael ei sefydlu cyn bo hir, ran allweddol i'w chwarae;
- Teimlai Alasdair Denton y gallai'r effaith ar economi Cymru fod yn sylweddol pe bai cyfran fechan o'r 90,000 o fyfyrwyr sydd yng Nghymru yn sefydlu eu busnesau eu hunain. Y mater yr oedd angen ei ystyried oedd sut y gellid defnyddio'r lifer hwn er mwyn datblygu'r economi. Yr oedd Cyllid Cymru, gyda cholegau, yn datblygu rhaglen cynhyrchu busnesau.

3.15 A oedd digon o wybodaeth ar gael am y farchnad lafur a'r sector busnes er mwyn cynllunio ac arolygu'r gefnogaeth a gynigid? Faint o wybodaeth a oedd wedi ei chasglu am fusnesau gwledig?

- Dywedodd Brian Willott fod gan y Cynghorau Hyfforddi a Menter lawer iawn o wybodaeth am fusnesau gwledig. Pan oedd cyflogwr yn symud i ardal yr oedd yr Awdurdod Datblygu'n casglu gwybodaeth am yr ardal a'r sgiliau a oedd ar gael. Yr oedd astudiaeth o strwythur ac anghenion mentrau bach a chanolig eu maint yn cael ei gwneud ond yr oedd angen mwy o wybodaeth. Er bod llawer o wybodaeth ar gael drwy Gymru yr oedd angen gwell gwybodaeth ar lefel rhanbarthau ac awdurdodau unedol;
- Dywedodd Alasdair Denton mai rôl allweddol Cyllid Cymru oedd bod yn hwyluswr. Yr oedd angen gwybodaeth bendant er mwyn gwybod o ble yr oedd yr economi wledig yn dechrau ac er mwyn pennu targedau.

3.16 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu cyfraniad a gofynnodd iddynt wneud nodyn o unrhyw faterion a oedd yn codi y teimlent y dylid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor.

**Eitem 4: Cyllideb Ddrafft** - ARD 16-00(p2)

4.1 Dywedodd y Cadeirydd fod cais wedi ei wneud i'r Pwyllgor ystyried a chyflwyno sylwadau yngln â

chynigion y Cabinet ar gyfer y gyllideb amaethyddiaeth a datblygu gwledig. Byddai unrhyw safbwyntiau y byddai'r Pwyllgor yn hoffi eu mynegi yn cael eu hystyried cyn i'r gyllideb derfynol gael ei chyflwyno i'r Cynulliad yn ddiweddarach yn ystod y mis.

4.2 Dywedodd y Gweinidog fod y rhan fwyaf o flaenoriaethau'r Pwyllgor wedi eu derbyn ar wahân i gynllun i gefnogi pobl a oedd yn dymuno dechrau ffermio. Yr oedd y rhesymau wedi eu nodi ym mharagraff 7 yn y papur.

4.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oedd unrhyw bwyntiau yr hoffent gael eglurhad arnynt. Codwyd y pwyntiau isod:

- holwyd y Gweinidog yngln ag arian ar gyfer y cynllun Troi'n Organig. Nododd y Pwyllgor fod hyn yn gymhleth iawn oherwydd y cyfuniad o arian o Ewrop ac o'r DG.   Er hynny, gellid cadarnhau y byddai cyfanswm y cyllid a fyddai ar gael ar gyfer y cynllun yn y tair blynedd o 2001-2002 yn £4.461 miliwn, £4.497 miliwn a £4.696 miliwn yn y drefn honno;
- gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd arian wedi ei neilltuo er mwyn gweithredu adroddiad Maclean. Dywedodd fod y gyllideb yn cynnwys £1.5 miliwn ar gyfer y gwaith o weithredu'r adroddiad ac er mwyn helpu lladd-dai bach. Yr oedd yn rhaid i'r gwaith o weithredu'r adroddiad fod yn gyson drwy'r DG. Cytunodd i ddarparu nodyn yngln â'r diffiniad o ladd-dai bach a chanolig eu maint a'u pwysigrwydd yng Nghymru;
- gofynnwyd i'r Gweinidog pam fod gostyngiad o £32 miliwn yn 2001-2002 ar gyfer Cynlluniau Cefnogi Marchnadoedd. Nododd y Pwyllgor mai'r prif elfennau yn y cyswllt hwn oedd y Trefniadau Cig Defaid a'r Premiwm Buchod Sugno. Yr oedd y cynlluniau hyn yn cael eu harwain gan y galw a byddai'r union swm yr oedd ei angen yn dod o'r Bwrdd Ymyrraeth. Rheswm arall dros y gostyngiad oedd y newid yng ngwerth yr Ewro;
- holwyd y Gweinidog yngln â'r gyllideb ar gyfer coedwigaeth. Eglurodd fod y gyllideb hon ar hyn o bryd yng ngofal y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau;
- yr oedd cyfrifoldeb am ddatblygu cynaliadwy wedi ei drosglwyddo i Bwyllgor yr Amgylchedd a holwyd y Gweinidog pam fod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn dal i fod â llinell gyllidebol. Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'r gyllideb yn cael ei throsglwyddo;
- holwyd y Gweinidog yngln â chyllid ar gyfer bio-màs ac ynni adnewyddadwy. Nododd y Pwyllgor fod cyllid wedi ei gynnwys yn llinell y Rhaglen Datblygu Gwledig;
- yr oedd Cytundeb y Bartneriaeth yn cynnwys ymrwymiad i neilltuo £10 miliwn y flwyddyn ar gyfer ffermwyr mynydd ond nid oedd llinell gyllidebol ar gyfer hynny. Eglurodd y Gweinidog nad oedd llinell ar wahân a bod y cyllid wedi ei gynnwys mewn cyllidebau eraill. Cytunodd i ddarparu nodyn;
- yr oedd yn ymddangos bod Cytundeb y Bartneriaeth yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu £10 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer Tir Gofal. Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro sut yr oedd hyn wedi ei gysoni â'r gyllideb. Dywedodd fod y gyllideb ddrafft yn sicrhau bod yr ymrwymiad yn cael ei gyflawni.

4.4 Trodd y Cadeirydd y drafodaeth wedyn at gefnogaeth i bobl a oedd yn awyddus i ddechrau ffermio. Mynegodd rhai Aelodau siom nad oedd unrhyw elfen yn y gyllideb i helpu pobl a oedd yn awyddus i

ddechrau ffermio. Yr oedd y penderfyniad i beidio â chefnogi’r cynllun Ewropeaidd yn anfon neges negyddol. Ni theimlid bod cymorth drwy gynlluniau eraill megis Cyswllt Ffermio ac, yn dilyn sylwadau cynharach Alasdair Denton, gan Gyllid Cymru yn ddigonol a gofynnwyd i’r Gweinidog ystyried unwaith eto sut y gellid helpu pobl ifanc i ddechrau ffermio.

4.5 Teimlai Aelodau eraill fod y penderfyniad cywir wedi ei wneud. Ni fyddai’r cynllun Ewropeaidd yn cynnig gwerth am arian, fel y dangosodd adroddiad ADAS.

4.6 Dywedodd y Gweinidog ei fod yn awyddus i annog pobl i ddechrau ffermio ond yr oedd yn rhaid i unrhyw gynllun fod yn gost-effeithiol. Awgrymodd y dylai’r Pwyllgor edrych ar ffyrdd o wneud hyn a gofynnodd i’r Pwyllgor dderbyn y gyllideb ddrafft.

4.7 Gan nad oedd consensws gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i bleidleisio ar ddau gynnig. Ar y cynnig cyntaf:

> *bod y Pwyllgor yn gofyn i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig ailedrych ar y cynllun ar gyfer pobl sydd yn awyddus i ddechrau ffermio a chyflwyno cynigion er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ifanc ymuno â’r diwydiant.*

Pleidleisiodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas | O blaid |
| Mick Bates | O blaid |
| Delyth Evans | Yn erbyn |
| Carwyn Jones | Yn erbyn |
| Elin Jones | O blaid |
| Peter Rogers | O blaid |
| Jocelyn Davies | O blaid |
| Huw Lewis | Yn erbyn |

Cytunwyd ar y cynnig o bum pleidlais i dair.

4.8 Ar yr ail gynnig:

> *bod y gyllideb ddrafft yn cael ei derbyn fel y cynigwyd hi.*

Pleidleisiodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas | Ymatal |

| | |
|---|---|
| Mick Bates | O blaid |
| Delyth Evans | O blaid |
| Carwyn Jones | O blaid |
| Elin Jones | Ymatal |
| Peter Rogers | Ymatal |
| Jocelyn Davies | Ymatal |
| Huw Lewis | O blaid |

Cytunwyd ar y cynnig o bedair pleidlais i ddim gyda phedwar yn ymatal.

*Pwyntiau gweithredu*

4.9 Manylion i'w darparu yngln â'r elfennau sy'n ffurfio'r pecyn o £10 miliwn er mwyn helpu ffermwyr mynydd y cyfeiriwyd ato yng Nghytundeb y Bartneriaeth - **Gweinidog**

4.10 Nodyn i'w ddarparu yngln â'r diffiniad o ladd-dai bach a chanolig eu maint a'u pwysigrwydd yng Nghymru. (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 2) **- Gweinidog**

4.11 Llythyr yn crynhoi'r drafodaeth ar gyllideb, i'w anfon at y Gweinidog. (Ceir copi o'r llythyr a anfowyd yn atodiad 1) - **Y Cadeirydd a'r Tsgrifenyddiaeth**

**Eitem 5: Partneriaeth Amaeth-Bwyd** - ARD 16-00(p3)
5.1 Croesawodd y Cadeirydd Fred Cunningham, Christine Lewis a Wynfford James i'r cyfarfod. Rhoddwyd cyflwyniad byr gan Christine Lewis a gosododd y Grp Strategaeth Datblygu Ffermydd yng nghyd-destun y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd.

5.2 Dywedodd Fred Cunningham wrth y Pwyllgor fod y cynigion a oedd yn ymwneud â Chyswllt Ffermio wedi eu datblygu gan y Grp â chefnogaeth ac ymrwymiad llwyr y diwydiant ffermio. Yr oedd y Grp ei hun yn dod ag amrediad eang o ddiddordebau at ei gilydd. Yr oedd is-grwpiau bychain wedi eu sefydlu er mwyn ystyried materion penodol a chynnig atebion yn seiliedig ar gydweithrediad a phartneriaeth. Yr oedd y cynigion yn realistig o safbwynt yr hyn y gellid ei gyflawni, yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant mewn busnes ac yn adeiladu ar yr arferion gorau.

5.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor am sylwadau a chwestiynau. Croesawyd y cynigion a chodwyd y pwyntiau isod:

- sut y gellid cynnig cyngor i'r ffermwyr hynny a oedd eisoes yn teimlo eu bod wedi eu hynysu, yn enwedig gan fod llawer o ffermwyr yn teimlo na allai Cyswllt Busnes eu helpu? Dywedodd Chris Lea fod gwaith yn cael ei wneud er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth drwy'r undebau a'r Clybiau Ffermwyr Ieuainc a bod deunydd cyhoeddusrwydd ar gael. Yr oedd yr Awdurdod Datblygu a'r

Bartneriaeth Amaeth-Bwyd yn datblygu safle ar y we. Byddai'r gwasanaeth newydd yn cael cyhoeddusrwydd rhagweithiol drwy hwyluswyr lleol;

- yr oedd gan yr hwyluswr lleol ran bwysig iawn i'w chwarae ac yr oedd yn bwysig cael cysondeb drwy Gymru. Dywedodd Fred Cunningham fod y cysyniad o hwyluswyr yn seiliedig ar dîm yn gweithio gyda'i gilydd a bod angen datblygu mwy arno. Yr oedd y cyngor yr oedd ar ffermwr tir âr isel ei angen yn wahanol iawn i'r hyn yr oedd y ffermwr mynydd ei angen ac yr oedd angen ei deilwrio'n briodol. Yr oedd hwyluswyr yn ganolog a byddai eu perfformiad yn cael ei feincnodi gan ddefnyddio meini prawf a ddatblygwyd ar sail adborth gan ffermwyr. Ychwanegodd Chris Lea mai cysylltu â'r hwyluswr yn lleol oedd yr allwedd a bod targedau'n cael eu datblygu;
- yr oedd y papur yn cynnwys enghreifftiau o drosglwyddo technoleg ond sut y gallai ffermwyr unigol elwa o'r gwaith hwnnw? Dywedodd Chris Lea y byddai'r gwaith darparu'n cael ei wneud drwy rwydwaith o ffermydd arddangos. Ychwanegodd Fred Cunningham fod y broses o drosglwyddo technoleg a rhannu'r arferion gorau yn hanfodol a bod angen ei gwella.

5.4 Diolchodd y Cadeirydd i Fred Cunningham a'i gydweithwyr am y cyflwyniad.

**Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 25 Hydref** - ARD 14-00(min); ARD 15-00(min)

6.1 Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y cyfarfod ar 25 Hydref yngln â phrosiectau Amcan 1 a oedd yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth a datblygu gwledig ar gael. Cadarnhaodd ei bod yn cael ei pharatoi.

6.2 Yna mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 25 Hydref a 2 Tachwedd 2000.

**Ysgrifenyddiaeth** **Tachwedd 2000**

---

Atodiad 1

Carwyn Jones AC
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
**Agriculture and Rural Development Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

9 Tachwedd 2000

Annwyl Carwyn

**CYLLIDEB DDRAFFT AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG 2001-02**

Ysgrifennaf i roi ar gof a chadw ganlyniad trafodaeth y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar y gyllideb ddrafft, a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd.

Yr oedd rhai o'r aelodau wedi'u siomi gan nad oedd y gyllideb yn darparu arian ar gyfer cynllun i ddenu pobl ifanc i'r diwydiant ffermio. Mewn llythyr a anfonais ar 12 Gorffennaf at eich rhagflaenydd, nodwyd mai cynllun o'r fath oedd trydedd flaenoriaeth wario'r pwyllgor. Pleidleisiodd mwyafrif yr aelodau o blaid cynnig yn galw arnoch i ailystyried cynllun ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chyflwyno cynigion penodol i ddenu pobl ifanc i'r diwydiant yn raddol.

Ar ôl cytuno ar y cynnig, pleidleisiodd y pwyllgor o blaid derbyn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2001-02 fel y'i cyflwynwyd.

Yn gywir

**RHODRI GLYN THOMAS AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

---

**Atodiad 2**

LLADD-DAI BACH A CHANOLIG A’U PWYSIGRWYDD YNG NGHYMRU

1. Nid oes diffiniad statudol o ladd-dai "bach a chanolig". Caiff y lladd-dai cig coch sy’n prosesu llai na 20 uned da byw yr wythnos neu 1,000 uned y flwyddyn, eu trwyddedu fel lladd-dai sy’n derbyn nifer isel o anifeiliaid. (Mae uned da byw yn cyfateb i 1 buwch neu 20 o ddefaid, neu gyfuniad cyfatebol o anifeiliaid).
2. O’r 35 lladd-dy cig coch sydd yng Nghymru, 20 ohonynt sy’n derbyn nifer isel o anifeiliaid ("low throughput").
3. Mae’r diffiniad gweithiol o ladd-dai "bach a chanolig" a ddefnyddir yn Adroddiad Maclean yn cynnwys pob un o’r lladd-dai sy’n lladd hyd at 500 o dda, a 10,000 o ddefaid neu 4,000 o foch neu gyfuniad o anifeiliaid i fyny at y ffiniau hyn mewn lladd-dy aml-rywogaeth. Gofynnwyd i’r Asiantaeth Safonau Bwyd am y ffigurau terfynol, ond tybir mai ychydig iawn o’r 35 lladd-dy yng Nghymru sy’n uwch na’r ffiniau hyn.
4. Felly, byddai bron pob un o’r lladd-dai yng Nghymru yn cael budd o ganlyniad i weithredu argymhellion Adroddiad Maclean.
5. Mae’r sector bach a chanolig yn darparu gwasanaeth pwysig i nifer o’r cymunedau amaethyddol mwy ynysig. Gyda’i gilydd, maent yn gwasanaethu cyfran sylweddol o’r sector adwerthu annibynnol, y mwyafrif o’r fasnach ethnig a rhan allweddol o’r fasnach adwerthu annibynnol.
6. Yng Nghymru yn arbennig, mae’r lladd-dai bach a chanolig yn cynorthwyo i gynnal y cymunedau amaethyddol a’r seilwaith gwledig. Mae’r lladd-dy lleol yn darparu gwasanaeth i’r ffermwyr ac yn cynrychioli elfen bwysig mewn ecoleg economaidd sy’n seiliedig ar amaethyddiaeth, lle mae pob cyfansoddyn yn cyfrannu at system lewyrchus. Os caiff y lladd-dy ei dynnu o’r system a’r ffermwyr yn gorfod cludo eu cynnyrch ymhellach, bydd llai o elw yn dod i’r economi leol oddi wrth ffermio da byw.
7. Mae’r sector bach/canolig yn fwy abl i ymateb i’r amrywio yn y galw ac i’r gofynion arbennig. Maent yn hanfodol ar gyfer y mentrau sy’n ymwneud â chynnyrch lleol a ffermio organig: mae’r lladd-dai mawr, sy’n derbyn nifer fawr o anifeiliaid, yn llai tebygol o fynegi diddordeb mewn mentrau fel hyn oherwydd nifer isel yr anifeiliaid. Mae galw cynyddol am gig ffres sydd wedi’i gynhyrchu’n lleol ac yn gallu cael ei olrhain i ffynhonnell leol. Mae’r ffermwyr sy’n dymuno cael cig o’r lladd-dai er mwyn ei werthu yn y siopau fferm, yn fwy tebygol o gael cymorth gan y lladd-dai lleol na’r lladd-dai mawr sydd wedi’u lleoli’n bell i ffwrdd.
8. Dyma ystyriaethau pwysig yng Nghymru, lle mae’r marchnata’n canolbwyntio ar gynnyrch lleol gwerth-ychwanegol, sydd o ansawdd da a lle y mae’n bosibl olrhain ei ffynhonnell. Mae’r sectorau bach a chanolig, sy’n cynrychioli’r gyfran uchaf o’r diwydiant lladd anifeiliaid yng Nghymru, yn ffactor hanfodol yn y cynlluniau i ddatblygu dyfodol mwy buddiol i ffermio da byw.

YR IS-ADRAN POLISI AMAETHYDDOL
TACHWEDD 2000

---

**Atodiad 3**

**£10 MILIWN AR GYFER FFERMWYR MYNYDD**

Mae'r Cytundeb Partneriaeth, gan gydnabod effaith y symud at y cynllun Tir Mynydd (a leddfir oherwydd y rhwyd ddiogelwch), yn sôn am yr angen i gyfeirio'r cymorth sydd ar gael eisoes yn rhaglenni Amaethyddiaeth y Cynulliad i helpu ffermwyr yn yr Ardaloedd Llai Ffafriol. Mae'r £10 miliwn y sonnir amdano dros y tair blynedd nesaf yn cyfeirio at y gyfran o wariant *Farming Connect* yn

ystod y tair blynedd nesaf, a fydd ar gael i ffermwyr mynydd – tua 80% o'r £13.5 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant; adolygiad busnes a buddsoddiad mewn daliadau; a mentrau eraill i gynyddu incwm y teuluoedd sy'n ffermio.

---

**Atodiad 4**

Minister for Rural Affairs
Gweinidog dros Faterion Gwledig

Aelodau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

23 Ionawr 2001

Y RHAGLEN WERTHUSO AR RADDFA FFERMYDD, YN SEALAND

Diau y cofiwch i mi gytuno i anfon copi atoch o'm llythyr at Janet Ryder a Tom Middlehurst yn eu hysbysu pa bryd y difethwyd y cnwd india-corn Chardon LL a oedd yn cael ei dyfu ar Fferm Birchenfield, Sealand, fel rhan o'r Rhaglen Werthuso ar Raddfa Ffermydd. Heddiw, ysgrifennais atynt ynghylch y mater hwn, ac mae copi o'r llythyr hwnnw'n amgaeëdig.

Yn gywir

Carwyn Jones AC

Minister for Rural Affairs
Gweinidog dros Faterion Gwledig

Ms Janet Ryder AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Ionawr 2001

TREIALU'R RHAGLEN WERTHUSO AR RADDFA FFERMYDD, YN SEALAND

Yn ystod y cwestiynau llafar ar 12 Hydref, gofynnwyd i mi eich hysbysu chi a Tom Middlehurst, a fydd hefyd yn derbyn copi o'r llythyr hwn, pa bryd y cafwyd gwared ar y cnwd a oedd yn cael ei dyfu ar Fferm Birchenfield yn Sealand, Sir y Fflint, fel rhan o'r rhaglen werthuso ar raddfa ffermydd (FSE). Roeddech hefyd yn dymuno cael cyngor ar gyfreithlondeb y treialu.

Roedd y tywydd cyfnewidiol a gafwyd dros y misoedd diwethaf wedi rhwystro'r ffermwr rhag mynd at y caeau lle'r oedd yr india-corn GM yn cael ei dyfu. Er hyn, gallaf eich hysbysu y cafodd y cnwd ei ddifetha yr wythnos ddiwethaf. Cynaeafwyd yr india-corn gan beiriant cynaeafu porthiant fel cnwd india-corn arferol, ac fe wasgarwyd y cynnyrch ar gae arall lle cafodd ei aredig. Dyma ffordd gydnabyddedig o gael gwared ar gnydau o'r fath. Roedd cynrychiolydd o Aventis yn bresennol er mwyn goruchwylio'r broses.

Rwyf hefyd yn fodlon ar gyfreithlondeb y treialu. Rwy'n fodlon bod y trefniadau yn Sir y Fflint yn cyd-fynd â'r esemptiad marchnata a geir yn rheoliad 32(1) o'r Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Fathau) 1982; bod y gwaharddiad rhag marchnata yn rheoliad 31(1) o'r Rheoliadau hyn, a'r esemptiad yn rheoliad 32(1) â sylfaen gadarn mewn deddf gwlad yn Adran 16 o Ddeddf Rhywogaethau Planhigion a Hadau 1964; bod y treialu yn Sir y Fflint yn "dreialu neu'n brawf" yn ôl ystyr rheoliad 32(1); a bod y rhaglen werthuso ar raddfa ffermydd, gan gynnwys yr un yn Sir y Fflint, wedi'u caniatáu gan Weinidogion y DU sy'n gweithredu ar y cyd yn unol â rheoliad 32(1) o Reoliadau 1982 a rheoliad 4(3) o Reoliadau Hadau Grawn 1993.

Yn gywir

Carwyn Jones